

**Hysbysiad Preifatrwydd
(Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data)**

**(Cyhoeddwyd gyntaf Medi 2018
Diweddarwyd Medi 2020 v0.3)**

Hysbysiad Preifatrwydd Ysgol / Darparwr Blynyddoedd Cynnar Powys

Yn unol â'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) mae'r hysbysiad hwn yn amlinellu beth mae eich ysgol (**Yr Ysgol**), yr Awdurdod Lleol (Cyngor Sir Powys) a Llywodraeth Cymru yn ei wneud â'r wybodaeth sy'n gysylltiedig ag addysg y maen nhw'n ei gael am Blant a Phobl Ifanc.

Covid-19 - Sylwch, dan Reol 3 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Pwerau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2010, mae'n rhaid i bennaeth ysgol roi enwau, cyfeiriadau a rhifau ffôn cyswllt pob disgybl yn eu hysgol, neu unrhyw grŵp o ddisgyblion sy'n mynychu'r ysgol honno pan fydd rhai amgylchiadau'n codi. Er enghraifft pan fydd rheswm i gredu bod person ar safle'r ysgol, neu wedi bod ar y safle'n ddiweddar, wedi'i heintio. Felly os yw eich plentyn yn absennol o'r ysgol ac efallai'n dioddef o Covid-19, yna bydd y wybodaeth hyn yn cael ei drosglwyddo i Gyngor Sir Powys er mwyn monitro unrhyw ardaloedd clwstwr posibl.

1. Cefndir

Mae'r **Ysgol** yn casglu gwybodaeth am blant a phobl ifanc a'u rhieni neu eu gwarcheidwaid cyfreithiol pan fo plant a phobl ifanc yn cofrestru gyda'r **Ysgol**. Mae'r Ysgol yn casglu gwybodaeth ar adegau allweddol eraill yn ystod y flwyddyn ysgol hefyd ac mae'n bosibl y bydd yn cael gwybodaeth oddi wrth ysgolion neu ddarparwyr blynyddoedd cynnar eraill pan fo plant a phobl ifanc yn newid ysgol/darparwr.

Mae'r **Ysgol** yn prosesu'r wybodaeth a gesglir i weinyddu'r addysg y mae'n ei darparu i blant a phobl ifanc. Er enghraifft:

- darparu gwasanaethau addysg i unigolion;
- monitro ac adrodd am gynnydd addysgol y disgyblion/plant;
- darparu gwasanaethau lles, gofal bugeiliol a gwasanaethau iechyd;
- rhoi cefnogaeth ac arweiniad i blant a phobl ifanc, eu rhieni a'u gwarcheidwaid cyfreithiol;
- trefnu digwyddiadau a theithiau addysgol a'ch hysbysu ynghylch digwyddiadau a phethau eraill sy'n digwydd yn yr ysgol
- i gadw plant yn ddiogel (alergeddau bwyd, neu fanylion cyswllt ar gyfer achosion brys)
- cynllunio a rheoli'r ysgol
- defnyddio lluniau ffotograffig o ddisgyblion yng nghyhoeddiadau'r ysgol, ar wefan yr ysgol ac ar gyfryngau cymdeithasol;
- dibenion diogelwch, gan gynnwys CCTV.

Mae **Cyngor Sir Powys** yn casglu gwybodaeth am blant a phobl ifanc a'u rhieni neu eu gwarcheidwaid cyfreithiol pan fo plant a phobl ifanc yn gwneud cais i fynychu'r **Ysgol**. Mae'r awdurdod lleol hefyd yn cael rhannu'r data a

gasglwyd gan yr **Ysgol** am yr un rhesymau a restrwyd uchod ac ar gyfer y dibenion ychwanegol canlynol:

- monitro, herio a rhoi cefnogaeth i'r ysgolion er mwyn gwella perfformiad a phennu targedau credadwy
- i gefnogi ysgolion gyda'r gwasanaethau a ddarperir i blant a phobl ifanc
- i lywio a chefnogi gwasanaethau a ddarperir gan y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc (CYPP) a Gwasanaeth Ieuencid Powys ar gyfer pobl ifanc a'u teuluoedd
- i ymchwilio a llywio penderfyniadau polisi yn cynnwys cyllido ysgolion a darparwyr blynyddoedd cynnar
- monitro ansawdd a chwmpas y data sydd gan ysgolion a darparu cefnogaeth i sicrhau bod y data sydd ganddynt ynghylch plant a phobl ifanc yn gywir ac yn gyfredol

Wrth dderbyn y wybodaeth gan eich **Ysgol** bydd yr Awdurdod Lleol (Cyngor Sir Powys) hefyd yn dod yn Rheolwr Data.

Mae ein sail gyfreithlon ar gyfer casglu a phrosesu gwybodaeth am ddisgyblion wedi ei diffinio yn Erthygl 6 ac mae'r is-baragraffau canlynol yn y GDPR yn berthnasol:

- a) Gwrthrych y data yn rhoi caniatâd ar gyfer un neu fwy o ddibenion penodol.
- b) Mae prosesu yn angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol y rheolwr.
- c) Mae prosesu yn angenrheidiol i ddiogelu buddiannau allweddol gwrthrych y data.
- ch) Mae prosesu yn angenrheidiol ar gyfer tasgau er budd y cyhoedd neu i arfer yr awdurdod a roddwyd i'r rheolwr (darparu addysg).

Mae ein sail gyfreithlon ar gyfer casglu a phrosesu gwybodaeth am ddisgyblion wedi ei diffinio drachefn hefyd yn Erthygl 9, sef y tybier bod rhywfaint o'r wybodaeth yr ydym yn ei brosesu yn sensitif, neu yn wybodaeth arbennig ac mae'r is-baragraffau canlynol yn y GDPR yn berthnasol:

- a) Mae gwrthrych y data wedi rhoi caniatâd pendant.
- b) Mae angen prosesu at ddibenion gwireddu rhwymedigaethau rheolwr y data (yr ysgol) neu wrthrych y data ym maes cyfraith amddiffyn cymdeithasol.
- c) Mae angen diogelu buddiannau hanfodol gwrthrych y data.
- d) Rhesymau budd y cyhoedd ym maes iechyd cyhoeddus.
- e) I ddarparu gofal cymdeithasol
- f) Mae er budd y cyhoedd.

Fel rheolwyr data, mae'r **Ysgol** a Chyngor Sir Powys yn defnyddio'r wybodaeth a gafwyd ar gyfer y dibenion a restrwyd i'w galluogi nhw i brosesu data sy'n angenrheidiol ar gyfer perfformio tasg er budd y cyhoedd ac i arfer awdurdod swyddogol.

Hefyd, mae **Llywodraeth Cymru** yn cael gwybodaeth am ddisgyblion yn uniongyrchol o'r ysgolion fel arfer fel rhan o gasgliadau data statudol sy'n cynnwys y canlynol:

- Casgliad data ôl-16
- Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)
- Addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS) casgliad lefel disgybl
- Casglu data cenedlaethol (NDC)
- Casglu data presenoldeb
- Casglu data Profion Cenedlaethol Cymru (WNT)

Yn ychwanegol at y data a gasglwyd fel rhan o CYBLD, mae Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol hefyd yn cael gwybodaeth ynghylch asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol, canlyniadau arholiadau cyhoeddus, a data presenoldeb ar lefel disgyblion unigol sy'n dod o'r Ysgolion ac/neu Gyrrff Dyfarnu (e.e. CBAC).

2. Pa wybodaeth a gedwir gan yr Ysgol a Chyngor Sir Powys?

Dyma'r math o wybodaeth bersonol a gedwir:

- manylion personol megis enw, cyfeiriad, dyddiad geni, dynodydd y plentyn/person ifanc a manylion cyswllt rhieni a gwarcheidwaid; ffotograffau (gan gynnwys delweddau o ddisgyblion yn cymryd rhan yng ngweithgareddau'r ysgol)
- nodweddion (megis ethnigrwydd, iaith, a chymhwysra i gael prydau ysgol am ddim)
- gwybodaeth am statws mewnfudo plant a phobl ifanc (dim ond er mwyn paratoi dadansoddiadau ystadegol cryno y defnyddir yr wybodaeth hon);
- diogelu gwybodaeth (megis gorchmynion llys a chysylltiad proffesiynol)
- anghenion addysgol arbennig (yn cynnwys yr anghenion a rancio)
- meddygol a gweinyddol (megis gwybodaeth am feddygon, iechyd plentyn, iechyd deintyddol, alergeddau, meddyginiaeth ac anghenion dietegol)
- presenoldeb (megis sesiynau a fynychwyd, nifer yr absenoldebau, rhesymau dros absenoldeb ac unrhyw ysgolion blaenorol a fynychwyd)
- asesiad a chyrhaeddiad (megis cyfnod allweddol a chanlyniadau, cyrsiau ôl-16 y cofrestrwyd ar eu cyfer ac unrhyw ganlyniadau perthnasol)
- gwybodaeth ymddygiad (megis gwaharddiadau ac unrhyw ddarpariaeth amgen a drefnwyd)
- gwybodaeth am unrhyw gysylltiad rhwng y gwasanaethau cymdeithasol a phlant a phobl ifanc unigol, os oes angen cysylltiad o'r fath er mwyn gofalu am y plentyn/person ifanc.
- Efallai y byddwn yn cadw data am ddisgyblion a gawsom oddi wrth sefydliadau eraill, gan gynnwys ysgolion eraill, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru.

- Delweddau CCTV*

*Mae gennym systemau CCTV mewn mannau allweddol at ddibenion diogelwch ac atal a chanfod troseddau. Byddwn yn datgelu delweddau CCTV i drydydd parti dim ond at ddibenion diogelwch y cyhoedd ac atal a chanfod troseddau. Ni fyddwn yn rhyddhau delweddau CCTV i'r cyfryngau at ddibenion adloniant na'u gosod ar y we. Ni fyddwn yn cadw delweddau CCTV am hirach na'r hyn sy'n angenrheidiol.

Dylech gynnwys yr adran hon dim ond os oes gennych CCTV ar y safle.

3. Â phwy y mae'r Ysgol a Chyngor Sir Powys yn rhannu'r wybodaeth?

Caiff yr **Ysgol** a Chyngor Sir Powys rannu'r wybodaeth a gedwir am blant a phobl ifanc, ac am eu rhieni neu eu gwarcheidwaid cyfreithiol gyda sefydliadau eraill pan fydd y gyfraith yn caniatáu hynny, ac ar yr amod bod pob cam priodol yn cael eu cymryd i gadw'r wybodaeth yn ddiogel, er enghraifft:

- cyrff addysg a chyrff hyfforddi eraill, gan gynnwys ysgolion, pan fydd plant a phobl ifanc yn gwneud cais i fynd ar gyrsiau, i gael hyfforddiant, i newid ysgol neu pan fyddant yn gofyn am gyngor ar gyfleoedd;
- cyrff sy'n gwneud ymchwil ar ran Llywodraeth Cymru, yr Awdurdodau Lleol ac ysgolion, cyn belled ag y cymerir camau i gadw'r wybodaeth yn ddiogel;
- llywodraeth ganolog a lleol er mwyn cynllunio a darparu gwasanaethau addysgol
- gwasanaethau cymdeithasol a sefydliadau iechyd a lles eraill pan fo angen rhannu gwybodaeth er mwyn amddiffyn a chynorthwyo plant a phobl ifanc unigol; gan gynnwys Heddluoedd, Llysoedd a Thribiwnlysoedd a sefydliadau diogelwch.
- darparwyr Systemau Gwybodaeth Rheoli (MIS) er mwyn sicrhau bod swyddogaeth a manwl-gywirdeb y system yn cael eu cynnal a'u cadw;
- cyflenwyr system di-arian ysgolion cymeradwy'r Cyngor er mwyn sicrhau bod disgyblion, rhieni a gwarcheidwaid sydd â chyfrifoldeb rhiant, a staff yr ysgol yn gallu ei defnyddio fel bo'r angen;
- Bwrdd Iechyd Addysgu Powys i gefnogi'r ddarpariaeth o Wasanaeth Nyrs Ysgol effeithiol a gwasanaethau iechyd eraill cysylltiedig ar gyfer pobl ifanc a'u teuluoedd;
- Ymddiriedolaeth Ymchwil Addysg Ymddiriedolaeth Teulu Fischer (FFT) (<https://fft.org.uk/about-fft/>) i gynnal a chadw'r adnodd ar-lein diogel FFT Aspire ar gyfer ysgolion. Mae'r adnodd yn galluogi hunanwerthuso trylwyrgan ddefnyddio mesuriadau cynnydd eang a gosod targedau effeithiol ar gyfer cyflawniadau disgyblion;
- GL Assessment (<https://www.gl-assessment.co.uk/about-us/>) ar gyfer gweinyddu profion gallu gwybyddol (CATs) blynyddol ac offerynnau diagnostig eraill i gefnogi dysgu unigol;

- Consortiwm Addysg De-orllewin a Chanolbarth Cymru (ERW) i gynorthwyo â dadansoddiad ystadegol rhanbarthol, sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru;
- amryfal gyrff rheoleiddio, megis ombwdsmyrn ac awdurdodau arolygu, pan fo'r gyfraith yn dweud bod yn rhaid trosglwyddo'r wybodaeth honno er mwyn iddynt allu gwneud eu gwaith;
- y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) er mwyn gwella ansawdd yr ystadegau am ymfudo a'r boblogaeth.

Rhennir gwybodaeth hefyd gyda Gyrfa Cymru yn unol â'r darpariaethau a osodwyd yn Neddf Addysg 1997 (Adrannau 43 a 44) a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 (Adrannau 123 a 138).

Rhannu gwybodaeth bersonol gyda darparwyr meddalwedd sy'n seiliedig ar gwricwlwm

Gallai'r **Ysgol** ddarparu gwybodaeth bersonol gyfyngedig (ond nid gwybodaeth sensitif) i gwmnïau allanol sy'n darparu adnodd yn seiliedig ar gwricwlwm (a allai fod ar-lein) y tybier bod ganddo werth addysgol. Yn yr amgylchiadau hyn bydd yr **Ysgol** yn sicrhau y cymerir pob gofal i gadw'r data'n ddiogel yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol a bod y cyflenwr allanol yn bodloni'r gofynion cyfreithiol i gyd sy'n ymwneud â thrin y data hwn fel sy'n cael ei nodi mewn cytundeb ysgrifenedig ffurfiol rhwng yr **Ysgol** a'r cyflenwr.

Bydd yr **Ysgol** yn ymdrechu i sicrhau bod gwybodaeth yn gywir bob amser. Ni fydd gwybodaeth bersonol yn cael ei hanfon y tu allan i'r DU oni bai ei bod wedi ei diogelu gan y trefniadau diogelwch ychwanegol sy'n gysylltiedig â phlatform dysgu digidol Llywodraeth Cymru – 'Hwb'. Ceir manylion ar: <https://hwb.gov.wales/privacy>

Dyma'r cwmnïau a'u cymwysiadau a ddefnyddir yn y modd hwn ar hyn o bryd:

a) Enw Cwmni 1 ac enw'r cymhwysiad a'i ddiben

b) Enw Cwmni 2 ac enw'r cymhwysiad a'i ddiben

c) Enw Cwmni 3 ac enw'r cymhwysiad a'i ddiben

d) Enw Cwmni 4 ac enw'r cymhwysiad a'i ddiben

e) Enw Cwmni 5 ac enw'r cymhwysiad a'i ddiben

Parhewch fel bo angen

4. Am ba hyd y cedwir y data hwn?

Bydd eich **Ysgol**, Cyngor Sir Powys a Llywodraeth Cymru yn cadw'r data hwn hyd at ben-blwydd y disgybl yn 25 oed neu am gyfnod y meini prawf sy'n sail i'r rheoliad statudol. Ar ôl hyn bydd gwybodaeth y data yn ddiennw yn unol ag

arferion gorau ac yn cael ei defnyddio ar gyfer dibenion ystadegol ac ymchwil yn unig.

5. Eich hawliau o dan y GDPR

O dan ddeddfwriaeth diogelu data mae gan rieni a disgyblion yr hawl i ofyn am gael gweld y wybodaeth amdany'n nhw sydd gennym ni drwy ddefnyddio Cais am Fynediad at Ddata gan y Testun (SAR). Caiff rieni/gwarcheidwaid wneud cais yn ymwneud â data eu plentyn pan nad yw'r plentyn yn cael ei ystyried yn ddigon aeddfed i ddeall ei hawliau ei hun ynghylch ei ddata (fel arfer o dan 12 oed), neu pan fo'r plentyn wedi rhoi caniatâd.

Mae gan rieni hawl hefyd i wneud cais SAR ynghylch unrhyw ddata personol amdany'n nhw sydd gan yr ysgol.

Os gwnewch chi gais SAR ac mae gennym ni wybodaeth amdano'ch chi neu am eich plentyn byddwn yn:

- Rhoi disgrifiad ohoni ichi
- Dweud wrthy'ch chi pam ein bod yn cadw'r wybodaeth ac yn ei phrosesu ac am ba hyd y byddwn yn ei chadw
- Egluro o ble y cawsom y wybodaeth os nad gennych chi na'ch plentyn
- Dweud wrthy'ch chi â phwy y cafodd ei rhannu neu y bydd yn cael ei rhannu
- Eich hysbysu am unrhyw benderfynu awtomatig sydd ynghlwm â'r data, a beth yw canlyniad hyn
- Rhoi copi o'r wybodaeth mewn ffurf ddealladwy ichi

Mae gennych hawl hefyd i:

- ✓ Fynnu bod yr Ysgol neu Gyngor Sir Powys yn cywiro unrhyw anghywirdebau yn y data;
- ✓ (mewn rhai amgylchiadau) gwrthwynebu prosesu ar seiliau'n ymwneud â'ch sefyllfa benodol chi;
- ✓ Cyfyngu ar y prosesu (mewn rhai amgylchiadau)
- ✓ Cofnodi cwyn gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth sef y rheoleiddiwr annibynnol ar ddiogelu data.

Am ragor o wybodaeth am yr wybodaeth y mae eich ysgol a Chyngor Sir Powys yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y GDPR, gweler y manylion cyswllt isod:

Eich Ysgol: **Rhowch Enw a chyfeiriad llawn yr ysgol yma**

Ffôn: **Rhowch rif ffôn yr Ysgol yma**

Cyfeiriad E-bost: **Rhowch gyfeiriad e-bost yr Ysgol yma**

Cyngor Sir Powys: Swyddog Diogelu Data Ysgolion
Tîm Cydymffurfio Gwybodaeth
Neuadd y Sir

Llandrindod
Powys LD1 5LG

I gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, gweler y manylion isod:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:	Wycliffe House Water Lane Wilmslow, Cheshire SK9 5AF
---	---

Ffôn – Llinell Gymorth: 029 2067 8400 (llinell gymorth Cymru) neu 0303
123 1113 (llinell gymorth y DU)

Gwefan: www.ico.org.uk